**Terms and Conditions**

**Sport Wales owns and manages the Sport Wales National Centre (the 'Centre'). In entering into any agreement, you agree to be bound by these Terms and Conditions.**

**1 Membership**

1.1 Sport Wales reserves the right to refuse any application for Membership, terminate a Membership or refuse admission to its facilities.

1.2 Sport Wales reserves the right to verify or require proof of all information given in order to obtain Membership.

1.3 Sport Wales reserves the right to amend or withdraw benefits offered with any of its Memberships.

1.4 Membership cards must be shown and swiped on each visit or the standard charge will apply. A photograph will be required on joining for identification purposes.

1.5 Membership cards are non-transferable.

1.6 Damaged, lost or stolen cards must be reported to reception. A replacement card fee will be charged.

1.7 Members must inform reception of any change in contact information.

1.8 Sport Wales reserves the right to amend or withdraw Membership types, facilities and the programme of activities.

1.9 Membership upgrades can be made available and may incur a pro-rata charge to cover the period between upgrading the membership and the first payment being taking at the new rate by Direct Debit. A Change of Option form is available from reception/website.

1.10 Membership downgrades can only be arranged upon completion of a membership amendment/ cancellation instruction form, available from reception..

1.11 Customers may cancel their membership within 7 days of the initial purchase without incurring any fees so long as the facilities have not been used. If the facilities have been used you may still cancel but will incur the normal charges associated with cancellation. Information concerning cancellation charges are available at reception.

1.12 All members wishing to use the Cardio/Weight Gyms will be required to complete a gym induction and a health questionnaire before using these areas.

1.13 Gold and Silver (Direct Debit) membership is offered on a no minimum term contract basis. Your membership will continue at the prevailing rate until you provide us with notice of cancellation.

1.14 When purchasing a direct debit membership, a pro-rata payment will be required for the amount that relates to the time between the membership contract being entered into and the first Direct Debit collection date.

1.15 Direct Debit payments will be collected from your account on the 1st of each month or the nearest working day after that date and relate to the month ahead.

1.16 Sport Wales is not responsible for any bank fees or charges incurred if subsequent attempt to collect monies owed are unsuccessful.

1.17 Bronze membership is valid for one (1) year from the date of signing of this agreement. After expiry members will be given up to 14 days to renew their membership, after which the membership is deemed to have lapsed, and an initial joining fee may become payable.

1.18 Prices are reviewed on the 1st April each year and any price rise is generally in line with inflation. Sport Wales will inform you of any increase in direct debit fees by email or post.

1.19 Prices are inclusive of VAT at 20%

1.20 Prices are effective from 1st April 2018

1.21 Customers are advised to view the facilities on offer before joining.

1.22 At the discretion of the Head of Centre your membership can be put on hold for up to six months (for example due to pregnancy or a medical condition) without cancelling your membership.

**2 Cancellation**

2.1 We reserve the right to cancel or suspend your membership if any terms and conditions are not adhered to.

2.2 Members may cancel their membership at any time. To cancel your membership you must send a written cancellation request to the SWNC Customer Services Office. On receipt of the form, we will cancel the membership from the next Direct Debit transaction date. However please note that if cancellation occurs after the 15th of any given month, a Direct Debit will proceed on the 1st day of the following month and will allow access to the facilities as per membership type up to the last day of said month.

**Example A** – Membership Cancellation Form is received on the 12th January. Membership will be cancelled from 1st February.

**Example B** - Membership Cancellation Form is received on the 21st January. A Direct Debit will be deducted in the normal way on the 1st February giving access to facilities and services for the month of February. Membership will be cancelled from the 1st March.

2.3 Bronze members are pay and play and therefore can cancel at any time, any refund of the initial joining fee is at the discretion of the Head of Centre.

**3 Facilities**

3.1 Although every attempt will be made to keep to the published programme, Sport Wales reserves the right to change the opening times and activities. We will endeavour to give appropriate notice should this happen, however some activities many not be able to take place due to unforeseen circumstances.

3.2 Members must comply with conditions of use displayed in facility areas.

3.3 The Centre provides free car parking to customers when using the Centre (subject to availability).

3.4 Members may book racket sports 7 days in advance. Members who book a court and do not attend will be charged the member rate for the court on their next attendance.

3.5 The Group exercise class programme may be amended without prior notification and spaces are allocated on a first come first served basis.

3.6 Admission to group exercise classes may be denied if members arrive after the class start time at the discretion of the class instructor.

3.7 Unless otherwise advertised all facilities and classes are for 50 minutes except for squash which is for 40 minutes. There are no time limits for use of the gyms. Multiple entries are permitted throughout the day, members must report to reception, and present their membership card and pay if required on each occasion.

3.8 The Centre reserves the right to vary the Terms and Conditions outlined in this document. We will write to all members informing them of the changes. This communication may be by post or e-mail.

**4 Racket Sports**

4.1 A maximum of 4 players are permitted per booking

4.2 The member must be present and playing at the time of booking

4.3 Spectators are not permitted in the Hall/Courtside

4.4 A maximum of 1 court can be booked within any time slot.

4.5 A maximum 2 hour court/session can be booked at any one time/day

**5 Liability**

5.1 Nothing in these Terms & Conditions shall limit or exclude the liability of Sport Wales for:-

5.1.1 death or personal injury caused by its negligence, or the negligence of its employees, agents or sub-contractors (as applicable);

5.1.2 fraud or fraudulent misrepresentation; or

5.1.3 any matter in respect of which it would be unlawful for Sport Wales to exclude or restrict liability.

5.2 Subject to condition 5.1 above:-

5.2.1 Sport Wales shall under no circumstances whatsoever be liable to the member whether in contract, tort (including negligence), breach of statutory duty, or otherwise, for any loss of earnings, or loss of profit, or any indirect or consequential loss arising under or in connection with the member's use of the Centre and/or its facilities; and

5.2.2 the total liability of Sport Wales to the member in respect of all other losses arising under or in connection with the member's use of the Centre and/or its facilities, whether in contract, tort (including negligence), breach of statutory duty or otherwise, shall in no circumstances exceed the sum of £100.00 on any one claim.

**6 General Information**

6.1 The Centre will provide a minimum of one months' notice when the Centre is to close (e.g. during the Christmas period / bank holidays). The Centre will also close one day per year for the annual Sport Wales conference. The fees and charges published reflect these closures and no additional time will be added to compensate the member. Please enquire at the reception desk, check notice boards / social media and our website for information.

6.2 Sport Wales reserves the right to close for cleaning, maintenance and refurbishment work or in the event of an emergency. Prior notice will be given unless circumstances outside of the Centre's control create the necessity for immediate closure.

6.3 Prices are reviewed on the 1st April each year and any price increase is generally in line with inflation. Sport Wales will only inform you of an increase in fees.

**7 Personal Information**

7.1 Sport Wales will receive certain personal information about the member in connection with their membership. Sport Wales will only use this personal information for the purpose of administering the member's membership (if necessary via agents or subcontractors) and (if the member has provided consent) to inform the member about other services or goods which Sport Wales provide.

7.2 Privacy agreements are available via the below link (or hard copy from Customer Services if required): http://privacy.sport.wales/

sportwales chwaraeoncymru

# SPORT WALES NATIONAL CENTRE

# APPLICATION FORM

sportwales chwaraeoncymru

**Please print in block letters**

Title Mr / Mrs / Ms / Miss / Other

Gender Male / Female / Prefer Not to Say / Other

Surname

Forename(s)

Address

Postcode Date of Birth

Telephone No

Email

**Type of membership required**

☐ **Gold** Unlimited use of Gyms, Classes and Racket Sports

☐ **Silver** Unlimited use of Gyms and Classes

☐ **Bronze** Pay as You Go (1 year renewable)

Adult ☐ Concession ☐ Family ☐ Junior ☐ Senior Citizen ☐ Student ☐

**Proof of eligibility must be provided**

**Family Membership**

Name Date of Birth

Name Date of Birth

Name Date of Birth

**Office Use**

Membership No.

Membership No.

Membership No.

Membership No.

Staff Initials

Sport Wales will receive certain personal information about the member in connection with their membership. Sport Wales will only use this information for the purpose of administering the member's membership (if necessary via agents or sub-contractors).

If you wish to receive information outside of administration of your membership, such as other services or goods which Sport Wales provide, please tick here ☐

**I have read and accept the terms and conditions.**

Signature Date

**Read and approved by Parent or Guardian** (if under 18)

Signature Date

# CANOLFAN GENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU

# FFURFLEN GAIS

sportwales chwaraeoncymru

**Llenwch mewn prif lythrennau os gwelwch yn dda**

Teitl Mr / Mrs / Ms / Miss / Arall ____

Rhyw Gwryw / Benyw / Gwell Gen i Beidio Dweud / Arall ____

Enw(au) Cyntaf ____

Cyfeiriad ____

Cod Post ____ Dyddiad Geni ____

Rhif Ffôn ____

E-bost ____

**Y math o aelodaeth rydych ei heisiau**

☐ **Aur** Defnydd heb gyfyngiad o'r Campfeydd, y Dosbarthiadau a'r Chwaraeon Raced

☐ **Arian** Defnydd heb gyfyngiad o'r Campfeydd a'r Dosbarthiadau

☐ **Efydd** Talu Wrth Chwarae (Blwyddyn – i'w adnewyddu)

Oedolyn ☐ Gostyngiad ☐ Teulu ☐ Plentyn ☐ Pensiynwr ☐ Myfyriwr ☐ **Rhaid dangos prawf o gymhwysedd i dderbyn unrhyw ostyngiad**

**Aelodaeth Deulu**

Enw ____ Dyddiad Geni ____

Enw ____ Dyddiad Geni ____

Enw ____ Dyddiad Geni ____

Bydd Chwaraeon Cymru'n derbyn gwybodaeth bersonol benodol am yr aelod mewn cysylltiad â'i aelodaeth. Dim ond at ddiben gweinyddu'r aelodaeth fydd Chwaraeon Cymru'n defnyddio'r wybodaeth hon (os oes angen, drwy asiantatu neu is-gontractwyr). Os ydych yn dymuno derbyn gwybodaeth heb ymwneud â gweinyddu eich aelodaeth, fel gwybodaeth am wasanaethau neu nwyddau eraill mae Chwaraeon Cymru'n eu darparu, ticiwch yma. ☐

**Rwyf wedi darllen a derbyn y telerau a'r amodau ar gyfer aelodau.**

Llofnod ____ Dyddiad ____

**Darllenwyd a chymeradwywyd gan Riant neu Warcheidwad** (os yw'r unigolyn yn iau na 18 oed)

Llofnod ____ Dyddiad ____

**Defnydd Swyddogol**

Rhif Aelodaeth ____

Rhif Aelodaeth ____

Rhif Aelodaeth ____

Rhif Aelodaeth ____

Blaenlythrennau Staff ____

## Telerau ac Amodau

**Mae Chwaraeon Cymru yn berchen ar Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru (y "Ganolfan") ac yn ei rheoli. Wrth ddod yn rhan o unrhyw gytundeb, rydych yn cytuno i gadw at y Telerau a'r Amodau hyn.**

**1 Aelodaeth**

1.1 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais am Aelodaeth, terfynu Aelodaeth neu wrthod mynediad i'w gyfleusterau.

1.2 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i ddilysu neu ofyn am brawf o'r holl wybodaeth a roddir er mwyn sicrhau Aelodaeth.

1.3 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i ddiwygio neu ddileu unrhyw fanteision a gynigir gydag unrhyw Aelodaeth ganddo.

1.4 Mae'n rhaid dangos cardiau aelodaeth a'u rhoi drwy'r peiriant ar bob ymweliad neu bydd rhaid talu'r ffi safonol. Bydd angen llun wrth ymuno, at bwrpas eich adnabod.

1.5 Nid yw cardiau aelodaeth yn drosglwyddadwy.

1.6 Rhaid rhoi gwybod yn y dderbynfa am gardiau wedi'u difrodi, eu colli neu eu lladrata. Bydd rhaid talu ffi am gerdyn newydd.

1.7 Mae'n rhaid i aelodau roi gwybod yn y dderbynfa am unrhyw newid yn eu gwybodaeth gyswllt.

1.8 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i ddiwygio neu ddileu unrhyw fathau o Aelodaeth, cyfleusterau a'r rhaglen o weithgareddau.

1.9 Gellir sicrhau bod posib uwchraddio aelodaeth ac efallai y bydd rhaid talu ffi pro-rata am y cyfnod rhwng uwchraddio'r aelodaeth a chymryd y taliad cyntaf yn unol â'r gyfradd newydd drwy Ddebyd Uniongyrchol. Mae ffurflen Newid Opsiwn ar gael yn y dderbynfa/ar y wefan.

1.10 Dim ond drwy lenwi ffurflen Newid Opsiwn y gellir israddio aelodaeth. Mae'r ffurflenni ar gael yn y dderbynfa/ ar y wefan.

1.11 Gall cwsmeriaid ganslo eu haelodaeth o fewn 7 diwrnod i'w phrynu i ddechrau heb dalu unrhyw ffioedd, ar yr amod nad yw'r cyfleusterau wedi cael eu defnyddio. Os yw'r cyfleusterau wedi cael eu defnyddio, mae posib canslo wedyn, ond bydd rhaid i chi dalu'r ffioedd arferol sy'n gysylltiedig â chanslo. Mae gwybodaeth am ffioedd canslo ar gael yn y dderbynfa.

1.12 Bydd yn ofynnol i'r holl aelodau sy'n dymuno defnyddio'r ystafelloedd Cardiofasgiwlar/Pwysau Rhydd gwblhau cwrs cyflwyniad i'r gampfa a holiadur iechyd cyn defnyddio'r mannau hyn.

1.13 Cynigir aelodaeth Aur ac Arian (Debyd Uniongyrchol) ar sail contract heb dymor penodol iddo. Bydd eich aelodaeth yn parhau yn unol â'r gyfradd arferol nes eich bod yn rhoi rhybudd canslo i ni.

1.14 Wrth brynu aelodaeth debyd uniongyrchol, bydd angen taliad pro-rata ar gyfer y swm sy'n berthnasol i'r amser rhwng llunio'r contract aelodaeth a dyddiad casglu'r Debyd Uniongyrchol cyntaf.

1.15 Cesglir taliadau Debyd Uniongyrchol o'ch cyfrif ar y 1af o bob mis neu ar y diwrnod gwaith agosaf wedi'r dyddiad hwnnw ac maent yn berthnasol i'r mis sydd i ddod.

1.16 Nid yw Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am unrhyw ffioedd neu daliadau banc y mae'n rhaid eu talu os bydd ymgais ddilynol i gasglu arian dyledus yn aflwyddiannus.

1.17 Mae aelodaeth efydd yn ddilys am un (1) flwyddyn o ddyddiad llofnodi'r cytundeb hwn. Ar ôl i'r aelodaeth ddod i ben, bydd aelodau'n cael hyd at 14 diwrnod i adnewyddu eu haelodaeth. Wedi hynny, bydd yr aelodaeth yn cael ei chyfrif fel aelodaeth wedi dod i ben ac efallai y bydd unrhyw ffi ymuno gychwynnol yn daladwy.

1.18 Adolygir y prisiau ar y 1af o Ebrill bob blwyddyn a bydd unrhyw gynnydd yn cyd-fynd yn gyffredinol â chwyddiant. Bydd Chwaraeon Cymru yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gynnydd yn ffioedd eich debyd uniongyrchol drwy e-bost neu drwy'r post.

1.19 Mae'r prisiau'n cynnwys TAW ar gyfradd o 20%.

1.20 Mae'r prisiau'n weithredol o'r 1af Ebrill 2018.

1.21 Cynghorir cwsmeriaid i ddod i weld y cyfleusterau sy'n cael eu cynnig yma cyn ymuno.

1.22 Yn unol â disgresiwn Pennaeth y Ganolfan, gall eich aelodaeth gael ei gohirio am hyd at chwe mis (er enghraifft, os ydych yn feichiog neu'n dioddef o gyflwr meddygol) heb ganslo eich aelodaeth.

**2 Canslo**

2.1 Rydym yn cadw'r hawl i ganslo neu ohirio eich aelodaeth os na chedwir at unrhyw delerau ac amodau.

2.2 Caiff aelodau ganslo eu haelodaeth ar unrhyw adeg. I ganslo aelodaeth, rhaid i chi anfon cais canslo ysgrifenedig i Swyddfa Gwasanaethau Cwsmeriaid CGChC yn y cyfeiriad isod. Ar ôl derbyn y ffurflen, byddwn yn canslo'r aelodaeth o ddyddiad y taliad Debyd Uniongyrchol nesaf. Fodd bynnag, os byddwch yn canslo ar ôl y 15fed dydd mewn unrhyw fis, bydd y Debyd Uniongyrchol yn parhau ar ddiwrnod 1af y mis canlynol a byddwch yn cael mynediad i'r cyfleusterau yn unol â'ch math o aelodaeth hyd at ddiwrnod olaf y mis penodol hwnnw.

**Esiampl A** – Derbynnir y Ffurflen Canslo Aelodaeth ar y 12fed o Ionawr. Bydd yr aelodaeth yn cael ei chanslo o'r 1af o Chwefror.

**Esiampl B** - Derbynnir y Ffurflen Canslo Aelodaeth ar yr 21ain o Ionawr. Bydd taliad Debyd Uniongyrchol yn cael ei dynnu fel arfer ar y 1af o Chwefror gan ganiatáu defnydd o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau drwy gydol mis Chwefror. Bydd yr aelodaeth yn cael ei chanslo o'r 1af o Fawrth.

2.3 Aelodau talu a chwarae yw aelodau efydd ac felly maent yn cael canslo ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw ad-daliad o'r ffi ymuno gychwynnol yn unol â disgresiwn Pennaeth y Ganolfan.

**3 Cyfleusterau**

3.1 Er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i gadw at y rhaglen sydd wedi'i chyhoeddi, mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i newid amseroedd agor ac amseroedd gweithgareddau. Byddwn yn gwneud ein gorau i roi rhybudd priodol i chi os bydd hyn yn digwydd, fodd bynnag, efallai na fydd posib cynnal rhai gweithgareddau oherwydd amgylchiadau na ellir eu rhagweld.

3.2 Mae'n rhaid i aelodau gydymffurfio â'r amodau defnydd sy'n cael eu harddangos yn y cyfleusterau.

3.3 Mae'r Ganolfan yn darparu maes parcio am ddim i gwsmeriaid wrth iddynt ddefnyddio'r Ganolfan (os oes lle ar gael).

3.4 Caiff aelodau archebu chwaraeon raced 7 diwrnod ymlaen llaw. Bydd aelodau sy'n archebu cwrt ond ddim yn mynychu'n gorfod talu'r gyfradd i aelodau am y cwrt y tro nesaf y byddant yn dod yma.

3.5 Gellir diwygio rhaglen dosbarthiadau ymarfer y grwpiau heb roi gwybod ymlaen llaw a neilltuir y llefydd ynddynt ar sail y cyntaf i'r felin.

3.6 Gellir gwrthod mynediad i ddosbarthiadau ymarfer i grwpiau os yw aelodau'n cyrraedd ar ôl amser dechrau'r dosbarth, yn unol â disgresiwn hyfforddwr y dosbarth.

3.7 Oni bai yr hysbysebir yn wahanol, mae pob cyfleuster a dosbarth yn para 50 munud, ac eithrio sboncen, sydd am 40 munud. Nid oes unrhyw gyfyngiadau amser ar gyfer defnyddio'r campfeydd. Caniateir eu mynychu sawl gwaith y dydd, ond mae'n rhaid i'r aelodau fewngofnodi yn y dderbynfa a dangos eu cerdyn aelodaeth bob tro a thalu os oes angen.

3.8 Mae'r Ganolfan yn cadw'r hawl i amrywio'r Telerau a'r Amodau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon. Byddwn yn ysgrifennu at yr holl aelodau yn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau. Bydd y gohebu hwn drwy'r post neu drwy e-bost.

**4 Chwaraeon Raced**

4.1 Caniateir uchafswm o 4 chwaraewr i bob archeb

4.2 Rhaid i'r aelod fod yn bresennol ac yn chwarae fel rhan o'r archeb

4.3 Ni chaniateir gwylwyr yn y Neuadd/ar Ochr y Cwrt

4.4 Gellir archebu uchafswm o 1 cwrt oddi mewn i unrhyw slot amser

4.5 Gellir archebu uchafswm o gwrt/sesiwn 2 awr ar unrhyw adeg/dydd.

**5 Atebolrwydd**

5.1 Nid oes unrhyw beth yn y Telerau a'r Amodau hyn yn cyfyngu ar nac yn eithrio atebolrwydd Chwaraeon Cymru am y canlynol:-

5.1.1 marwolaeth neu anaf personol a achosir gan ei esgeulustod, neu esgeulustod ei weithwyr, ei asiantau neu ei is-gontractwyr (fel sy'n berthnasol);

5.1.2 twyll neu gamliwio twyllodrus; neu

5.1.3 unrhyw fater lle mae'n anghyfreithlon i Chwaraeon Cymru eithrio neu gyfyngu ar atebolrwydd.

5.2 Yn amodol ar amod 5.1 uchod:-

5.2.1 Ni fydd Chwaraeon Cymru, o dan unrhyw amgylchiadau o unrhyw fath, yn atebol i'r aelod, boed drwy gontract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), torri dyletswydd statudol, neu fel arall, am unrhyw golli enillion, neu golli elw, neu unrhyw golled anuniongyrchol neu ganlyniadol sy'n codi o dan neu mewn cysylltiad â defnydd yr aelod o'r Ganolfan a/neu ei chyfleusterau; a

5.2.2 Ni fydd cyfanswm atebolrwydd Chwaraeon Cymru i'r aelod mewn perthynas ag unrhyw golledion eraill sy'n codi o dan neu mewn perthynas â defnydd yr aelod o'r Ganolfan a/neu ei chyfleusterau, boed drwy gontract, camwedd (yn cynnwys esgeulustod), torri dyletswydd statudol neu fel arall, yn fwy o dan unrhyw amgylchiadau na swm o £100.00 mewn unrhyw un hawliad.

**6.1 Gwybodaeth Gyffredinol**

6.1 Bydd y Ganolfan yn rhoi isafswm o fis o rybudd pan fydd yn cau (e.e. yn ystod cyfnod y Nadolig / gwyliau banc). Bydd y Ganolfan yn cau hefyd un diwrnod y flwyddyn ar gyfer cynhadledd Chwaraeon Cymru. Mae'r ffioedd a'r prisiau sydd wedi'u cyhoeddi'n adlewyrchu'r cau hwn ac ni fydd unrhyw amser ychwanegol yn cael ei ychwanegu i wneud iawn i'r aelod. Holwch yn y dderbynfa, edrychwch ar yr hysbysfyrddau / cyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan am wybodaeth.

6.2 Mae Chwaraeon Cymru'n cadw'r hawl i ddewis cau'r Ganolfan ar gyfer glanhau, cynnal a chadw neu waith adnewyddu, neu os bydd aryfwng. Rhoddir rhybudd ymlaen llaw oni bai fod amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Ganolfan yn arwain at orfod cau ar unwaith.

6.3 Adolygir y prisiau ar y 1af o Ebrill bob blwyddyn ac mae unrhyw gynnydd yn cyd-fynd â chwyddiant yn gyffredinol. Dim ond am gynnydd yn y ffioedd fydd Chwaraeon Cymru'n rhoi gwybod i chi.

**7 Gwybodaeth Bersonol**

7.1 Bydd Chwaraeon Cymru'n derbyn gwybodaeth bersonol benodol am yr aelod mewn cysylltiad â'i aelodaeth. Dim ond at ddiben gweinyddu'r aelodaeth fydd Chwaraeon Cymru'n defnyddio'r wybodaeth hon (os oes angen, drwy asiantatu neu is-gontractwyr) ac (os yw'r aelod wedi rhoi ei ganiatâd), i roi gwybod i'r aelod am wasanaethau neu nwyddau eraill mae Chwaraeon Cymru'n eu darparu.

7.2 Mae cytundebau preifatrwydd ar gael drwy ddilyn y ddolen isod (copi papur ar gael o'r adran Gwasanaethau Cwsmeriaid os oes angen): http://privacy.sport.wales/

sportwales chwaraeoncymru